



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Dyddiadau y bydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn dod i ben: Ilythyr i awdurdodau lleol

Yn esbonio'r sefyllfa ynghylch y dyddiad y bydd CDLIau yn dod i ben.

Cyhoeddwyd gyntaf: 24 Medi 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 24 Medi 2020

Annwyl Gydweithwyr,

Rwy'n ymwybodol bod sawl Awdurdod Cynllunio Lleol yn pryderu fwyfwy ynghylch y dyddiad y bydd eu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn dod i ben a goblygiadau hynny ar y gallu i wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar lefel leol. Mae yna hefyd gwestiynau ynghylch y gallu i godi Ardoll Seilwaith Cymunedol, i gymhwyso Canllawiau Cynllunio Atodol a'r ansicrwydd cynyddol y bydd hynny'n ei achosi i'ch cymunedau a'ch rhanddeiliaid.

Diwygiwyd Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (PCPA) 2004 drwy Deddf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/dyddiadau-y-bydd-cynllun-datblygu-lleol-cdli-yn-dod-i-ben-ilythyr-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf, ymhlith materion eraill, yn cyflwyno darpariaethau sy'n pennu'r cyfnod y mae'r cynllun yn cael effaith ac yn darparu y bydd yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod penodedig.

Mae cynllunio yn cael ei ystyried yn fwy fel arf pwysig i adfer yn sgil feirws Covid-19, gan greu cymdeithas fwy teg yn gymdeithasol a gwyrddach nag o'r blaen sy'n canolbwyntio ar Greu Lleodedd a chynaliadwyedd. I gyflawni'r nod hwn, mae system sy'n seiliedig ar gynllun yn hanfodol.

Gyda llawer o CDLlau yn agosáu at ddiwedd eu cyfnod, yn enwedig o 2021 ymlaen, canfyddir na fyddant yn bodoli ar ôl iddynt ddod i ben. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i egluro'r sefyllfa.

Cafodd y darpariaethau yn Ndeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ynghylch y cyfnod y mae cynllun yn cael effaith eu cychwyn ar 4 Ionawr 2016. Nid yw effaith y darpariaethau hyn yn ôl-weithredol. Mae hyn yn golygu nad yw'r darpariaethau yn berthnasol i CDLlau a fabwysiadwyd cyn y dyddiad hwn. Bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau ar gyfer penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio hyd nes y bydd CDLI pellach yn eu disodli. O ran y CDLlau a fabwysiadwyd ar ôl 4 Ionawr 2016, bydd y CDLI yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod a bennwyd yn y cynllun.

Bydd y CDLI cyntaf yn dod i ben ar 1 Ionawr 2026 o dan y darpariaethau hyn. Mae'r cyfnod hwn o ychydig dros 5 mlynedd i 2026 yn rhoi cyfle i edrych ymhellach ar y sefyllfa ac ystyried a oes angen deddfwriaeth bellach.

O ran y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol nad ydynt eto wedi elwa ar GDLI sydd wedi'i fabwysiadu, ond sydd â Chynllun Datblygu Unedol, nid yw'r darpariaethau ynghylch y cyfnod y mae cynllun yn cael effaith yn berthnasol. Bydd y ddau Gynllun Datblygu Unedol yn parhau hyd nes y cânt eu disodli gan eu CDLI priodol.

Yn gywir,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/dyddiadau-y-bydd-cynllun-datblygu-lleol-cdli-yn-dod-i-ben-llythyr-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Julie James AS/MS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Minister for Housing and Local Government

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/dyddiadau-y-bydd-cynllun-datblygu-lleol-cdli-yn-dod-i-ben-llythyr-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Dyddiadau y bydd Cynllun Datblygu Lleol \(CDLI\) yn dod i ben: llythyr i awdurdodau lleol](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/dyddiadau-y-bydd-cynllun-datblygu-lleol-cdll-yn-dod-i-ben-llythyr-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/dyddiadau-y-bydd-cynllun-datblygu-ileol-cd11-yn-dod-i-ben-llythyr-i-awdurdodau-ileol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).